

Prosiect Uganda

NDCau - 1,2,3,4,5,6,7,8,10,11,12,13,15,17

1 Dim tlodi – mae'r prosiect yn amlwg yn lleihau tlodi i'r bobl sydd ynghlwm ag ef.

2 Dim newyn – mae incwm gwell yn galluogi pobl i gael eu bwydo'n well, ac mae tyfu amrywiaeth ehangach o fwydydd yn gwella deiet pobl.

3 Iechyd a llesiant da – mae deiet gwell yn gwella iechyd pobl, ac mae mwy o incwm yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddio gwasanaethau meddygol (mynd i glinigau ac ati)

4 Addysg o safon – mae mwy o bobl yn gallu fforddio ffioedd ysgol, ac mae'r prosiect ei hun yn addysgu pobl

5 Cydraddoldeb rhywiol – mae'r prosiect yn rhoi cyfleoedd i grwpiau menywod ac unigolion fel Anet i reoli pethau a chreu newid

6 Dŵr glan a glanweithdra – does dim cyfeiriad penodol, ond mae incymau gwell yn galluogi pobl i gael dŵr ac adeiladu toiledau

7 Ynni fforddiadwy a glân – mae gwneud stofiau sy'n arbed ynni yn ei gwneud yn bosibl i bobl ddefnyddio llai o danwydd (coed tân neu siarcol)

8 Gwaith boddhaol a thwf economaidd - mae'r prosiect wedi creu 55 o swyddi'n uniongyrchol, ac wedi arwain at dwf economaidd yn yr ardal

10 Llai o anghydraddoldeb - drwy greu cyfleoedd i fenywod, mae'r prosiect yn lleihau anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn yr ardal. Nid yw'n newid yr anghydraddoldeb rhwng y boblogaeth wledig mewn gwlad fel

Maint Cymru

Cysylltiadau SDG â Phrosiectau



Uganda a gwledydd cyfoethog mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.

11 Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy – nid dinas wrth gwrs, ond mae'r gymuned yn lleihau effaith newid yn yr hinsawdd drwy blannu coed a gwneud eu hardal eu hunain yn fwy abl i ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd

12 Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol – nid yw pobl Mbale yn bwyta llawer, ond mae'r coffi maen nhw'n ei gynhyrchu yn goffi masnach deg.

13 Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd – mae plannu coed yn amsugno CO2 felly mae'n cyfrannu at leihau newid yn yr hinsawdd.

15 Bywyd ar y tir – mae plannu amrywiaeth o goed yn darparu cynefinoedd i amrywiaeth o rywogaethau. Mae annog gwenyn yn helpu amrywiaeth o blanhigion i dyfu.

17 Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nodau - mae'r cyswllt rhwng Cymru ac ardal Mbale yn cyflawni hyn.

Prosiect Wapichan

NDCau - 1, 3, 4, 11, 12, 13, 14, 15, 17

1 Dim tlodi – Mae'r prosiect yn amlwg yn lleihau tlodi i'r bobl sydd ynghlwm ag ef.

3 Iechyd a llesiant da – mae ymdeimlad y Wapichan o lesiant yn dibynnu ar lesiant eu tir.

4 Addysg o ansawdd – mae'r bobl yn cael eu haddysgu â llawer o sgiliau i fapio a monitro eu hardal, ac maen nhw'n addysgu gwybodaeth a sgiliau traddodiadol i'r bobl ifanc

11 Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy – nid dinas wrth gwrs, ond mae'r gymuned yn lleihau effaith newid yn yr hinsawdd drwy warchod y goedwig a gwneud eu hardal eu hunain yn fwy abl i ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd

12 Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol – mae cymryd cynhyrchion o'r goedwig fel mae'r Wapichan yn ei wneud yn gynaliadwy

13 Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd – mae gwarchod y goedwig, sy'n storio swm enfawr o garbon, yn cyfrannu at leihau newid yn yr hinsawdd.

14 Bywyd o dan y dŵr – maen nhw'n ceisio atal y llygredd yn sgil mwynloddio, sydd wedi lladd popeth mewn rhai afonydd

Maint Cymru

Cysylltiadau SDG â Phrosiectau



15 Bywyd ar y tir – mae gwarchod y goedwig yn diogelu bioamrywiaeth hefyd.

17 Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nodau - mae'r cyswllt rhwng Cymru a'r Wapichan yn cyflawni hyn.

Zimbabwe

NDCau - 1,2,3,4, 5, 8, 10, 11, 12, 13, 15, 17

1 Dim tlodi – mae'r prosiect yn amlwg yn lleihau tlodi i'r bobl sydd ynghlwm ag ef.

2 Dim newyn - Mae'r prosiect yn darparu mwy o fwyd, a bwyd gwell, i lawer o bobl yn y gymuned

3 Iechyd a llesiant da – mae deiet gwell yn gwella iechyd pobl, ac mae mwy o incwm yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddio gwasanaethau meddygol (mynd i glinigau ac ati)

4 Addysg o ansawdd – mae mwy o bobl yn gallu fforddio ffioedd ysgol, ac mae'r prosiect ei hun yn addysgu pobl

5 Cydraddoldeb rhywiol – mae'r prosiect yn rhoi cyfleoedd i grwpiau menywod ac unigolion i reoli pethau a chreu newid

8 Gwaith boddhaol a thwf economaidd – mae'r prosiect yn cynhyrchu mwy o fwyd yn yr ardal, a mwy o incymau sefydlog

10 Llai o anghydraddoldeb - drwy greu cyfleoedd i fenywod, mae'r prosiect yn lleihau anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn yr ardal. Nid yw'n newid yr anghydraddoldeb rhwng y boblogaeth wledig mewn gwlad fel Zimbabwe a gwledydd cyfoethog mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.

11 Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy – nid dinas wrth gwrs, ond mae'r gymuned yn lleihau effaith newid yn yr hinsawdd drwy leihau datgoedwigo, plannu coed, a gwneud eu hardal eu hunain yn fwy abl i ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd

Maint Cymru

Cysylltiadau SDG â Phrosiectau



12 Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol –mae tyfu'n organig ac annog pethau fel cadw gwenyn yn gynaliadwy

13 Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd –mae plannu coed yn amsugno CO₂ felly mae'n cyfrannu at leihau newid yn yr hinsawdd.

15 Bywyd ar y tir –mae plannu amrywiaeth o goed yn darparu cynefinoedd i amrywiaeth o rywogaethau. Mae annog gwenyn yn helpu amrywiaeth planhigion.

17 Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nodau - mae'r cyswllt rhwng Cymru ac ardal Kariba yn cyflawni hyn.

Ogiek yn Kenya

NDCau - 1, 3, 4, 11, 12, 13, 15, 17

1 Dim tlodi – mae'r prosiect yn amlwg yn lleihau tlodi i'r bobl sydd ynghlwm ag ef.

3 Iechyd a llesiant – mae ymdeimlad yr Ogiek o lesiant yn dibynnu ar fedru byw ar eu tir.

4 Addysg o ansawdd – mae'r bobl yn cael eu haddysgu â llawer o sgiliau i fapio a monitro eu hardal, ac maen nhw'n addysgu gwybodaeth a sgiliau traddodiadol i'r bobl ifanc.

11 Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy – mae'r gymuned yn lleihau effaith newid yn yr hinsawdd drwy warchod y goedwig a gwneud eu hardal eu hunain yn fwy abl i ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

12 Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol – mae cymryd cynhyrchion o'r goedwig fel mae'r Ogiek yn ei wneud yn gynaliadwy

13 Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd – mae gwarchod y goedwig, sy'n storfa anferth o garbon, yn cyfrannu at leihau newid yn yr hinsawdd

15 Bywyd ar y tir – mae gwarchod y goedwig yn diogelu bioamrywiaeth hefyd.

17 Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nodau - mae'r cyswllt rhwng Cymru a'r Ogiek yn cyflawni hyn.

DRC (Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo)

NDCau - 1, 2, 3, 4, 5, 7, 8, 10, 12, 13, 15, 17

1 Dim tlodi – Mae'r prosiect yn amlwg yn lleihau tlodi i'r bobl sydd ynghlwm ag ef.

2 Dim newyn - Mae'r prosiect yn darparu mwy o fwyd, a bwyd gwell, i lawer o bobl yn y gymuned

3 Iechyd a llesiant da - mae bwyd gwell yn gwella iechyd pobl, ac mae'r stofiau sy'n arbed ynni yn gwneud cartrefi'n fwy iach

4 Addysg o ansawdd - mae'r prosiect ei hun yn addysgu pobl

5 Cydraddoldeb rhywiol – mae'r prosiect yn gwella bywydau menywod gyda'r stofiau (llai o amser yn casglu coed tân) a'r benthyciadau

7 Ynni fforddiadwy a glân – mae gwneud stofiau sy'n arbed ynni yn ei gwneud yn bosibl i bobl ddefnyddio llai o danwydd (coed tân neu siarcol)

8 Gwaith boddhaol a thwf economaidd – mae'r prosiect yn creu swyddi, ac yn gwneud bywydau ffermwyr yn fyw cynhyrchiol

10 Llai o anghydraddoldeb - drwy greu cyfleoedd i fenywod, mae'r prosiect yn lleihau anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn yr ardal. Nid yw'n newid yr anghydraddoldeb rhwng y boblogaeth wledig mewn gwlad fel Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo a gwledydd cyfoethog mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.

Maint Cymru

Cysylltiadau SDG â Phrosiectau



12 Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol –mae tyfu'n organig ac annog pethau fel cadw gwenyn yn gynaliadwy

13 Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd -mae'r gymuned yn lleihau effaith newid yn yr hinsawdd drwy leihau datgoedwigo

15 Bywyd ar y tir –mae lleihau datgoedwigo a rheoli potsio yn helpu bioamrywiaeth yn y goedwig

17 Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nodau - mae'r cyswllt rhwng Cymru ac ardal Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo yn cyflawni hyn.

Arfordir Kenya

NDCau - 1, 2, 3, 4, 5, 7, 8, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 17

1 Dim tlodi – mae'r prosiect yn amlwg yn lleihau tlodi i'r bobl sydd ynghlwm ag ef.

2 Dim newyn - Mae'r prosiect yn darparu mwy o fwyd, a bwyd gwell, i lawer o bobl yn y gymuned

3 Iechyd a llesiant da - mae cael gwell bwyd yn gwella iechyd pobl. Mae lleihau'r llygredd yn yr aer yng nghartrefi pobl yn gwneud pobl yn fwy iach.

4 Addysg o ansawdd – mae'r prosiect ei hun yn addysgu pobl

5 Cydraddoldeb rhywiol– mae'r prosiect yn gwella bywydau menywod gyda'r stofiau a'r lampau, ac yn ei gwneud hi'n haws i ferched astudio.

7 Ynni fforddiadwy a glân - mae'r stofiau a'r lampau solar sy'n arbed ynni yn ei gwneud yn bosibl i bobl ddefnyddio llai o danwydd (cerosin, coed tân neu siarcol)

8 Gwaith boddhaol a thwf economaidd – mae'r prosiect yn creu swyddi, ac yn gwneud bywydau ffermwyr yn fyw cynhyrchiol. Mae'r benthyciadau'n helpu pobl i gael incwm.

10 Llai o anghydraddoldeb - drwy greu cyfleoedd i fenywod, mae'r prosiect yn lleihau anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn yr ardal. Nid yw'n newid yr anghydraddoldeb rhwng y boblogaeth wledig mewn gwlad fel Kenya a gwledydd cyfoethog mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.

11 Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy – nid dinas wrth gwrs, ond mae'r

Maint Cymru

Cysylltiadau SDG â Phrosiectau



gymuned yn lleihau effaith newid yn yr hinsawdd drwy leihau datgoedwigo a phlannu coed

12 Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol – mae'r prosiect yn annog tyfu'n gynaliadwy mewn nifer o ffyrdd

13 Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd – mae plannu coed yn amsugno CO2 felly mae'n cyfrannu at leihau newid yn yr hinsawdd. Mae defnyddio stofiau a lampau solar yn lleihau allyriadau carbon.

14 Bywyd o dan y dŵr - mae'r gwaith gyda ffermwyr ar yr afonydd wedi gwella cyflwr yr afonydd

15 Bywyd ar y tir – mae plannu amrywiaeth o goed yn darparu cynefinoedd i amrywiaeth o rywogaethau. Mae annog gwenyn yn helpu amrywiaeth planhigion.

17 Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nodau - mae'r cyswllt rhwng Cymru ac ardal arfordir Kenya yn cyflawni hyn.

Periw a'r Wampi

NDCau- 1, 2, 3, 4, 5, 8, 12, 13, 14, 15, 16, 17

- 1** Dim tlodi - mae'r prosiect yn amlwg yn lleihau tlodi i'r bobl sydd ynghlwm ag ef, drwy gynyddu eu ffyrdd o wneud bywoliaeth.
- 2** Dim newyn – Mae'r prosiect yn gwella incwm pobl, a'u gallu i gael eu bwydo'n well
- 3** Iechyd a llesiant da – mae lleihau llygredd yn yr afonydd yn sicrhau nad yw pobl yn dioddef o'r llygredd hwnnw.
- 4** Addysg o ansawdd – mae'r prosiect ei hun yn addysgu pobl, yn enwedig yn y sgiliau o ddefnyddio GPS a chynhyrchu radio.
- 5** Cydraddoldeb rhywiol – mae'r Wampi eu hunain yn dweud eu bod nhw eisiau grymuso pobl ifanc a menywod
- 8** Gwaith boddhaol a thwf economaidd – mae'r prosiect yn gwneud bywydau ffermwyr yn fwy cynhyrchiol.
- 12** Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol – mae'r prosiect yn annog tyfu'n gynaliadwy mewn nifer o ffyrdd
- 13** Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd – mae plannu coed a gwarchod y goedwig yn amsugno CO₂ ac felly'n cyfrannu at leihau newid yn yr hinsawdd.
- 14** Bywyd o dan y dŵr - mae stopio mwyngloddio am aur a gwrthwynebu chwilio am olew a nwy yn gwarchod yr afonydd hyn
- 15** Bywyd ar y tir – mae gwarchod y goedwig o fantais i'r holl fioamrywiaeth

Maint Cymru

Cysylltiadau SDG â Phrosiectau



sydd ynddi

17 Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r nodau - mae'r cyswllt rhwng Cymru a'r Wampis yn cyflawni hyn.